Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhaglen Gyllido Cydraddoldeb a Chynhwysiant

**2017–2020**



# Rhaglen Gyllido Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2017-2020

Mae Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ganolog i waith Llywodraeth Cymru a'n gweledigaeth ar gyfer Cymru. Credwn y dylai pawb gael ei drin yn deg, yn enwedig y rhai sy'n cael eu gwthio i'r cyrion fwyaf gan systemau cymdeithasol sy'n atal pobl rhag diwallu eu hanghenion sylfaenol. Ein nod yw sicrhau Cymru fwy cyfartal, er mwyn sicrhau mynediad tecach at wasanaethau a chefnogi cyfleoedd i bawb.

Nodir y camau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella canlyniadau i bobl a chymunedau yng Nghymru yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016. Mae'r Cynllun yn gyson â 'Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol', a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'n partneriaid, gan gynnwys saith asiantaeth flaenllaw sy'n gweithio i ddarparu cymorth i unigolion a chymunedau ledled Cymru mewn perthynas â hil (EYST); rhywedd (Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru); cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd (Stonewall Cymru); anabledd (Anabledd Cymru); ffoaduriaid a cheiswyr lloches (Cyngor Ffoaduriaid Cymru); Sipsiwn, Roma a Theithwyr (Tros Gynnal Plant) a mynd i'r afael a  throseddau casineb (Cymorth i Ddioddefwyr Cymru). Mae'r gwaith hwn yn cael ei gefnogi hefyd gan wyth Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol, a gyllidir gan Lywodraeth Cymru, sy'n gweithio yn rhanbarthol o fewn eu hawdurdodau lleol.

Ar gyfer unrhyw ymholiadau cysylltwch â:
**EqualityandProsperityMailbox@wales.gsi.gov.uk**

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG32278

## EYST - Rhaglen Ymgysylltu â BAME Cymru Gyfan

Ethnic Minorities & Youth Support Team Wales | Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig & Ieuenctid Cymru

Penodwyd Y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST) gan Lywodraeth Cymru i weithredu ar brosiect 3 mlynedd ar gyfer ymgysylltu â Chymunedau BAME Cymraeg. Bydd y prosiect yn cyflogi swyddogion yng Nghasnewydd, Caerdydd, Abertawe a Wrecsam er mwyn ymgysylltu ag unigolion, grwpiau a sefydliadau BAME ledled Cymru. Gan weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid eraill, bydd EYST yn casglu safbwyntiau a phrofiadau er mwyn creu sylfaen dystiolaeth i'w defnyddio fel sail i ddylanwadu ar wasanaethau cyhoeddus a pholisïau Llywodraeth Cymru, er mwyn adlewyrchu anghenion cymunedau BAME ac ymateb iddynt yn well, gan gefnogi Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal, fel rhan o'r rhaglen, cynhelir cymorthfeydd cyngor ym mhob awdurdod lleol drwy sefydliadau eiriolaeth BAME, gan anelu at sicrhau mynediad cyfartal i hawliau ar gyfer pobl BAME yng Nghymru.

EYST, Unedau B & C, 11 St Helens Road, Abertawe SA1 4AB

01792 466980

**www.eyst.org.uk**

**info@eyst.org.uk**

**facebook.com/EthnicYouthSupportTeam**

**twitter.com/eystwales**

## Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru – Prosiect Cydraddoldeb Rhywiol Cymru Gyfan

Nod Prosiect Cydraddoldeb Rhywiol Cymru Gyfan yw hyrwyddo Cydraddoldeb rhywiol a chreu llais cryf dros fenywod a merched yng Nghymru drwy raglen gynhwysfawr o weithgareddau dros dair blynedd. Cyflawnir amcanion y prosiect drwy:

- Brosiect Lleisiau Menywod a fydd yn cyrraedd menywod ar draws Cymru
- Digwyddiadau blynyddol ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Merched
- Darparu hyfforddiant ar gydraddoldeb rhywiol ar gyfer pobl ifanc a phrosiect i gynyddu amrywiaeth mewn bywyd cyhoeddus.

WEN Wales, Llawr Cyntaf, Llys Angor, Heol Keen,
Caerdydd CF24 5JW

07511 939235

**www.wenwales.org.uk**

**admin@wenwales.org.uk**

**facebook.com/WENWales**

**twitter.com/wenwales**

## Stonewall Cymru – Cydraddoldeb Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) yng Nghymru

Stonewall Cymru

Ystod o brosiectau sy'n gwella llesiant, potensial economaidd-gymdeithasol, triniaeth deg a diogelwch cymunedol dinasyddion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LGBT) Cymru, a'u cynghreiriaid, drwy:

- Ymgysylltu â chymunedau LGBT
- Grymuso pobl a chynghreiriaid LGBT
- Cryfhau lleisiau LGBT
- Gwella gwasanaethau cynghori, gwybodaeth ac eiriolaeth
- Trawsnewid amgylcheddau dysgu
- Cynrychioli pobl LGBT

Mae'r prosiect hefyd yn cynnwys: parhad  Gwasanaeth Gwybodaeth Stonewall Cymru; Swyddog Cyswllt Cymunedau Traws newydd yn nhîm Stonewall Cymru; a chydweithrediad newydd ag IRIS Prize Outreach Ltd i greu llyfrgell adnoddau ar-lein o ffilmiau a gynhyrchwyd gan gymheiriaid a chynlluniau gwersi.

Mae ein holl weithgareddau yn seiliedig ar egwyddorion o hygyrchedd, grymuso a'n huchelgais i gyrraedd amrywiaeth eang o bobl, gan gynnwys pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME), pobl anabl, pobl o bob oed, o bob grŵp economaidd-gymdeithasol ac yn enwedig y lleisiau lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol nas clywir yn aml.

Stonewall Cymru, Transport House, 1 Heol y Gadeirlan,
Caerdydd CF11 9SB

029 2023 7744

**www.stonewall.cymru**

**cymru@stonewall.cymru**

**facebook.com/stonewallcymru**

**twitter.com/stonewallcymru**

## Anabledd Cymru – Gyrru Hawliau Anabledd Ymlaen yng Nghymru

Drwy gynnal y prosiect hwn, fe fydd Anabledd Cymru yn tynnu sylw at fuddiannau pobl anabl yng Nghymru i Lywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill sy'n gwneud penderfyniadau, i sicrhau hawliau, cydraddoldeb, a'r gallu i fyw yn annibynnol er mwyn gwella llesiant pobl anabl. Bydd y prosiect yn cynnig gwybodaeth a fydd yn sail i bolisïau ac yn dylanwadu arnynt drwy:

- Sicrhau cynrychiolaeth ar grwpiau rhanddeiliaid a grwpiau chynghori,
- Cydlynu digwyddiadau ymgysylltu er mwyn casglu barn pobl anabl
- Cyflwyno ymatebion y sesiynau ymgynghorol..

Fe fydd Anabledd Cymru yn datblygu ac yn cefnogi gwaith sefydliadau a reolir gan bobl anabl. Byddant yn gwneud hynny drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth, a fydd hefyd ar gael ar-lein drwy eu gwefan ryngweithiol newydd, drwy fwletinau newyddion rheolaidd, a thrwy ddigwyddiadau hyfforddi a datblygu sydd wedi'u hanelu at y gymuned amrywiol o bobl anabl ledled Cymru.

Anabledd Cymru, Tŷ'r Bont, Parc Busnes Caerffili, Heol Van, Caerffili CF83 3GW

029 2088 7325

**www.disabilitywales.org**

**info@disabilitywales.org**

**facebook.com/disabilitywales**

**twitter.com/disabilitywales**

## Cyngor Ffoaduriaid Cymru – Y Rhaglen Hawliau Lloches

Mae'r Rhaglen Hawliau Lloches, sef partneriaeth o saith sefydliad yng Nghymru, yn anelu at hyrwyddo a sicrhau hawliau pobl sy'n ceisio lloches ac yn byw yng Nghymru mewn tair ffordd:

- Sicrhau bod pobl sy'n ceisio lloches yn gwybod eu hawliau ac yn cael cymorth i'w hawlio, lle a phryd bynnag y mae eu hangen.
- Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol, sy'n gweithio gyda phobl sy'n ceisio lloches, yn deall anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi, yn ogystal â'u rôl yn cyfrannu at greu Cymru lle y mae hawliau yn cael eu mwynhau.
- Hysbysu a dylanwadu dealltwriaeth y cyhoedd am yr hawl i loches a manteision croesawu pobl mewn angen i Gymru.

Cyngor Ffoaduriaid Cymru, 120-122 Broadway, Caerdydd, CF24 1NJ

029 2048 9800

www.welshrefugeecouncil.org/

ARP@services.wrc.wales

facebook.com/welshrefcouncil

twitter.com/welshrefcouncil

## Tros Gynnal Plant – Teithio Ymlaen

Tros Gynnal Plant
Standing up for Children

O fis Ebrill 2017 bydd Teithio Ymlaen yn cynnig:

- **Cyngor ac eiriolaeth** – cefnogaeth drwy linell gyngor (oriau swyddfa) a sesiynau allgymorth cymunedol, gweithio mewn partneriaeth gyda darparwyr prif ffrwd a'u hyfforddi er mwyn cryfhau eu gwasanaethau at y cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.
- **Hawliau a chyfranogiad** – cymorth i ddweud eich dweud, ac i fod yn rhan o wneud penderfyniadau ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Rydym yn cynnal digwyddiadau rhanbarthol yn rheolaidd ar gyfer aelodau o'r cymunedau (pobl ifanc ac oedolion). Rydym yn helpu i ddatblygu rhwydwaith ymgynghori cymunedol lle gall cyrff y Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill glywed am faterion sy'n flaenoriaeth gan y cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ledled Cymru.
- **Mynd i'r afael â gwahaniaethu** – cefnogaeth i herio straeon negyddol yn y wasg a chreu naratif mwy positif trwy ein partneriaeth gyda Travellers Times. Mae hynny'n cynnwys sefydlu adnodd gwe newydd dros Gymru a gynhelir gan ac ar gyfer y Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a chynnig gweithdai eiriolaeth ar y cyfryngau. Byddwn yn gweithio gyda Chanolfan Cymorth ac Adrodd Troseddau Casineb Cymru Gyfan i sicrhau bod mwy o wybodaeth a hyder gan gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr i adrodd am droseddau casineb a chael y cymorth priodol.

Tros Gynnal Plant, 12 Heol y Gogledd, Caerdydd CF10 3DY

01633 509 544

www **www.travellingahead.org.uk/rights-advice/wales-advice-advocacy-service/**

**travellingahead@trosgynnalplant.org.uk**

**facebook.com/travellingahead/**

**twitter.com/travellingahead**

## Cymorth i Ddioddefwyr – Canolfan Cymorth ac Adrodd Troseddau Casineb Cymru Gyfan

Casineb Adrodd amdano yng Nghymru

Dros y tair blynedd nesaf byddwn yn ehangu ein gwasanaethau presennol drwy ddefnyddio gweithwyr achos medrus a gwirfoddolwyr i ddarparu cymorth arbenigol i ddioddefwyr troseddau casineb ledled Cymru.

Byddwn yn parhau i ymddwyn fel llais annibynnol i ddioddefwyr drwy ein gwasanaeth Adrodd Trydydd Parti a drwy'r adborth a gafwyd gan ddefnyddwyr y gwasanaeth. Mae'r prosiect hefyd yn canolbwyntio ar ymgysylltu â chymunedau ac ar nodi a lleihau rhwystrau sy'n atal pobl rhag adrodd am gasineb trosedd a chael gafael ar gefnogaeth.

Byddwn yn datblygu'r gwaith hwn ymhellach, gan roi sylw i ardaloedd gwledig a thrwy adnabod arweinwyr troseddau casineb yn y gymuned.

Byddwn hefyd yn ehangu ar ein deunydd hyfforddi presennol, sydd wedi eu cyflwyno i dros 400 o bobl ledled Cymru, drwy gyflwyno dull newydd, sef 'Hyfforddi'r Hyfforddwr', er mwyn 'uwchsgilio' pobl yn y gymuned i fod yn fwy ymwybodol o droseddau casineb.

Byddwn hefyd yn rhoi pwyslais cryf ar nodi themâu sy'n dod i'r amlwg o droseddau casineb, yn ogystal ag edrych yn ofalus ar casineb seiber a'r effaith y gall hynny ei chael ar ddioddefwyr troseddau casineb.

Bydd ein gwasanaethau'n parhau i fod yn rhad ac am ddim, yn gyfrinachol ac yn ddwyieithog ledled Cymru

Cymorth i Ddioddefwyr, Adeilad Tri, Parc Busnes y Dwyrain, Llaneirwg, Caerdydd, CF3 5EA

0300 3031 982

www **www.reporthate.victimsupport.org.uk**

**hate.crimewales@victimsupport.org.uk**

**facebook.com/victimsupport**

**twitter.com/VictimSupportHC**